# CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

## COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16eg HYDREF 2018

## YN NEUADD GOFFA BODWROG

PRESENNOL:
Cyng H G Owen, R R Roberts, J Evans, E D Owen, R M Roberts, E W Roberts, D T Roberts, Cyng Sirol Mrs N Roberts, B Parry ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU:
Cyng J E Lewis, E Williams.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng Sirol Mrs N Roberts. Cynllunio.

CAEL COFNODION 18ed MEDI 2018 YN GYWIR Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng E W Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Cae Chwarae. Dim i`w drafod. Cadw golwg.

Y Cynghorwyr Sirol i gael copi o`r E Bost yn ymwneud a materion Y Cyngor Sir. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng R R Roberts.

Ysgol Bodffordd (Canolfan) Cyng Sirol Mr B Parry i gael gair gyda Mr Dylan Edwards Swyddog Adran Addysg y Cyngor Sir ynghylch a chwilio am bris terfynnol nid amcangyfrif. Mae angen hyn cyn cael y cyfarfod nesaf.
Cael cyfarfod cyhoeddus efallai mewn 3 mis. ar ol cael ymateb i`r uchod.

Sedd Wag. Y Clerc i gysylltu a`r Cyngor Sir i gael arweiniad. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng R M Roberts.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. 14C47T/LUC. / 14C47LUC/ENF. Cais am dystysgrig datblygiad ar gyfer codi modurdy yn :-
   19 Cae Bach Aur, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng R R Roberts.

2. 14C254A. Cais llawn ar gyfer addasu adeilad allanol amaethyddol yn annedd breswyl ynghyd a gwaith altro ac ehangu yn:-
   Cefn Trefor, Trefor.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng E W Roberts.

3. 14C28H/2/ECON. Cais llawn i defnydd o B8 (Canolfan Dosbarthu) 1 a 2 (Diwydiant Cyffredinol) ynghyd a gwaith altro ac ehangu a fydd yn cynnwys gosod seilos yn:-
   Uned 8 stad Diwydiannol Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng J Evans.

PENDERFYNIADAU:

4. 14C28E/2. Plot 7 Stad Diwydiannol Mona, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.

5. 14C190G. Coedmor, Tynlon. Caniatad. Derbyn.

6. 14C28G/2. 14 Stad Diwydiannol Mona, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.

7. 14C258 William Hughes Ltd, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.

8. 14C202A. Mathafarn, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

9. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Mon.
   Yng: Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol.
   Llecynnau agored mewn datblygiadau Tai Newydd.
   Tai Marchnad Lleol.
   Derbyn. Dim sylw. Dim i`n hardal ni.

10. Prif Swyddog Prisio.
    Ysgol Gymuned a Canolfan Cymunedol, Bodffordd.
    Wedi ei drafod dan Materion yn Codi.

11. Adran Dysgu Gydol Oes.
    Rhybudd Statudol (Ysgol Gynradd Newydd)
    Materion yn Codi. Derbyn.

12. Carffosiaeth Maes Twrog, Glanrafon, Tynlon.
    Mae problem ers amser maith Dwr Cymru yn dweud mae Cyngor Sir Ynys Mon yw`r perchenog a Cyngor Mon yn dweud fel arall.
    O`r diwedd mae y mater wedi ei ddatrys. Cyngor Sir sydd yn gyfrifol, ac maent wedi bod yno yn barod a pethau yn symud ymlaen. Mae`r Cyngor yn ddiolchgar dros ben i Cyng Alun Mummery (Llanfairpwll) am gymryd y mater i fynnu.

GOHEBIAETH (ARALL)

13. Yr Arolygaeth Cynllunio. (Cais Horizon)
    Cyfrarfodydd Rhagarweiniol yn Cae Sioe, Gwalchmai 23, 24, 25 Hydref 2018. Derbyn.

14. PCSO. Shaun Jones C3643. Anfon am ddyddiadu y Cyngor i gael mynychu. Yn anffodus nid oedd yn dod cyn belled ac ardal Bodffordd.

15. Cyng Sirol D Rees wedi cael galwad gan Mr G Blackwell ynghylch a cwn yn meuddu y Stryd ym Modffordd. Wedi methu cael gafael a`r Clerc trwy Wefan y Cyngor. Mae ci yn crwydo y Stad. Cael gafael a Warden Cwn y Cyngor Sir.

16. Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.
    Canfyddiadau ac Argymellion Amlinellol.
    Cynghorau Cymuned a Thref: Beth ydyn nhw. Derbyn.

17. HM Incwm a Treth. Sut i hawlio TAW y Cyngor. Derbyn.

18. Grid Cenedlaethol. Gorchymyn Caniatad Datblygu. Gwybodaeth. Derbyn.

RHODDION.

19. Dim.

PLWYFOL.

20. Archwiliad ar gyfer blwyddyn 31.03.18.
    Ffurflen flynyddol i`w chymeradwyo ai derbyn gan y Cyngor.
    Codwyd y canlynol gan yr Awdit Allanol:-
    Wefan ddim yn cynnwys sut i gysylltu a`r Clerc a`r Cynghorwyr. nid ydyw hyn yn gywir.
    (Angen gwybodaeth electronic)
    Asesiad Rheolaeth Risk. (Heb ei gefnodi) Mae wedi ei gofnodi 17eg Hydref 2017 (Rhif 200)
    Awditor Mewnol. Angen manylion ychwanegol ar lythyr penodi. Wedi ei gofnodi Mehefin 2016. (Rhif 178)
    Hysbysiad ar gyfer ymarfer hawliau etholwyr. Dim wedi gwneud tystiolaeth ffotograffic.
    Bydd yn cael ei wneud yn y dyfodol.
    Cynnig Cyng E W Roberts eilio Cyng J Evans i dderbyn yr archwiliad.

21. Asesiad a Rheolaeth Risg am y flwyddyn 2018 - 2019.
    Risg Ariannol.
    Preseb. Cofnod llawn gan y Cyngor Mis Rhagfyr / Mis Ionawr (Clerc)
    Ymholiadau ac Adroddiad at y Cyngor.
    Adolygiad pob chwarter o cyllideb i`r gwariant. Taliadau a Balans ar ol y Cofnodion (Clerc)
    Cyflog y Clerc i`w adolygu bob blwyddyn cyn y preseb.
    Treth Incwm i`w gwneud gan y Cyfrifydd (Talu y Treth Incwm bob Chwarter.)
    Lwfans Cynghorwyr. Cytuno yn flynyddol os yn addas.
    TAW. Pob item i`w monitro gan y Clerc a`r Cadeirydd.
    Cysgodfan Buses i`w archwilio bob chwech mis am banelli wedi ei torri a`i cyflwr paent.
    Cae Chwarae y Cyngor yn talu les. Y Cyngoryn gwirio i weld a oes difrod ac ymateb. Y Cyngor ddim yn gyfrifol am yr Offerau Chwarae.
    Cofgolofn (Charles Williams) Gwirio yn cyfnodol.
    Mynwnet Gymunedol Bodffordd. Cerrig Beddi i`w archwilio bob chwech mis. Glaswellt i`w dorri bob mis yn rheolaidd yn nhymor yr haf.
    Polis Ysiwrant i`w archwilio yn gryno bob adnewyddiad.
    Derbyn. Unfrydol.

22. Arwyddbost "Give Way" groeslon am Capel Seion angen sylw.

23. Arwyddbost tro Glanrafon yn dal heb ei godi. Cysylltu eto.

24. Fan Motor Home wrth Treflys, Tynlon a ydyw yn bosib ei symud.

TALIADAU:

25. Clerc £220.83.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng E D Owen.